* = Ffigwr is yn welliant

# Atodiad 1- Mesurau Perfformiad

## Mesurau Tlodi, Amddifadedd, Tai (Y Cynghorydd Ioan Thomas)

| Cyf. | Mesur – diffiniad | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | Cyfeiriad Uchelgais | 2015/16 Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tai - DAT01** | Nifer eiddo gwag hir dymor yn y Sir (6 mis neu fwy) wedi dod nol i ddefnydd. | 48 | 54 | 68 | Cynnal | 61 |
| **Tai - DAT04** | Nifer o dai ar y cynllun Tai Cynllun Lesu. | - | 57 | 63 | Cynnal | 53 |
| **Tai - PSR/002** | Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl. | 298 | 242 | 316 | Gwelliant* | 271 |
| **Tai - PSR/004** | Canran o'r anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol. | 4% | 5% | 6% | Gwelliant | 5% |
| **Tai - Strat6** | Nifer o unedau fforddiadwy a sicrhawyd i Wynedd. | - | 70 | 144 | Cynnal | 48 |
| **Tai - TAI 03** | Y nifer o unedau llai sydd wedi eu sefydlu yn y sir mewn ardaloedd o angen o ganlyniad i: Ddarpariaeth tai fforddiadwy, Ddarpariaeth unedau tai gwag nôl i ddefnydd. | - | 28 | 117 | Cynnal | 38 |
| **Tai - TAI 05** | Nifer o unigolion/cyplau/teuluoedd sydd wedi elwa o ganlyniad i: o Ddarpariaeth tai fforddiadwy | - | 194 | 271 | Cynnal | 93 |

* = Ffigwr is yn welliant

| Cyf. | Mesur – diffiniad | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | Cyfeiriad Uchelgais | 2015/16 Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllid - CD12.01** | Datblygu trefniadau ar gyfer cydymffurfio efo cynlluniau yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) pan fydd Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno yng Nghwynedd rhwng Medi a Thachwedd 2015, gan gynnwys hyfforddiant addas i staff a chydymffurfiaeth â thelerau’r Cytundebau Partneriaeth Cyflenwi. | - | Do | Do | Cynnal | Gweler y sylwadau |
| **Cyllid - CD12.03** | Yr amser (nifer dyddiau) a gymerir i brosesu hawliadau newydd am Fudd-daliadau Tai a Budddaliadau'r Dreth Gyngor. | 21.03 (Ch3) | 21.77 (Ch3) | 15.23 (Ch3) | Cynnal* | Gweler y sylwadau |
| **Cyllid - CD12.04** | Yr amser (nifer dyddiau) a gymrwyd i brosesu digwyddiadau o newid mewn Budd-daliadau Tai a Budd-daliadau'r Dreth Gyngor. | 3.79 (Ch3) | 5.20 (Ch3) | 3.62 (Ch3) | Cynnal* | Gweler y sylwadau |
| **Llyfrgelloedd - LCL/001 b** | Nifer ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth | 5,040 | 5,301 | 4,199 | Cynnal | Data ddim ar gael eto |
| **Llyfrgelloedd - LLYF05** | Canran o'r defnyddwyr sy'n graddio'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn dda iawn neu dda. | 97.7 | 95.5 | 96 | Cynnal | Data ddim ar gael eto |

* = Ffigwr is yn welliant

**Sylwadau**

**Tai - DAT01 –** Er yn is na blwyddyn 2014/15 mae'r perfformiad yn uwch na 2012/13 a 2013/14. Credir fod perfformiad eleni yn dda o ystyried y buddsoddiad ac yn uwch na'r hyn ragwelwyd ar ddechrau'r flwyddyn. Mae'r mesurydd hwn yn mesur faint o unedau oedd yn wag am gyfnod o chwe mis ble mae'r Gwasanaeth wedi llwyddo i ddod yn ôl i ddefnydd.

**Tai - DAT04 -** Perfformiad yn unol â'r disgwyl. Mae'r tuedd dros y blynyddoedd yn dangos fod niferoedd wedi syrthio ond gwyddom fod galw am y math yma o eiddo wedi lleihau ac nad oes angen mwy gan y byddai yn rhoi pwysau ariannol os yw'r eiddo yn parhau yn wag am gyfnod. Byddwn yn adolygu lleoliad a maint yr eiddo i sicrhau ei fod yn gyd fynd a'r galw. Rydym yn defnyddio'r tai yma ar gyfer rhoi llety i bobl ddigartref.

**Tai - PSR/002 -** Perfformiad yn well na'r tair blynedd diwethaf ac, er bod lle i wella, mae'r perfformiad ar gyfer 2015/16 yn galonogol. Mae 94 diwrnod o welliant wedi bod o gymharu â'r flwyddyn gynt. Mae unrhyw leihad mewn dyddiau yn y mesurydd hwn yn golygu fod yr unigolyn yn derbyn arian grant ynghynt.

**Tai - PSR/004 -** Perfformiad yn well na'r blynyddoedd cynt. Mae'r gwasanaeth yn ceisio targedu a blaenoriaethu'r tai gwag hynny sydd mewn lleoliadau ble mae galw am eiddo cymdeithasol.

**Tai - Strat6 –** Perfformiad yn sylweddol is o gymharu â 2014/15 (48 i gymharu â 144). Mae'r niferoedd yr unedau sy'n cael ei hadrodd ym mlwyddyn 2014 - 15 yn cynnwys 42 uned Cae Garnedd ac felly yn egluro'r amrywiaeth sylweddol o flwyddyn i flwyddyn.

**Tai - TAI 03 -** Y mesurydd yn cael ei weld fel 'data gweithgaredd' a dim uchelgais ffurfiol sydd angen ei gwrdd. Mae'r mesurydd hwn yn gysylltiedig hefo Strat6 a DAT01 ac felly yn dilyn unrhyw dueddiad yn y mesurau hyn.

**Tai - TAI 05 -** Mae'r perfformiad yn is o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf ac mae hyn yn gyd fynd a'r tuedd a welir yn y mesurydd Start6 uchod. Mae'r mesur hwn yn mesur nifer yr unigolion sydd wedi elwa o ddarpariaeth tai fforddiadwy.

**Cyllid - CD12.01 –** Nid yw'r cyfarfodydd monitro perfformiad wedi eu cynnal eto er mwyn cadarnhau a dilysu'r wybodaeth ar gyfer diwedd y flwyddyn. Bydd gwybodaeth y mesur hwn yn cael ei gynnwys yn adroddiad perfformiad y Cynghorydd Peredur Jenkins ar y 24/05/16.

**Cyllid - CD12.03 -** Nid yw'r cyfarfodydd monitro perfformiad wedi eu cynnal eto er mwyn cadarnhau a dilysu'r wybodaeth ar gyfer diwedd y flwyddyn. Bydd gwybodaeth y mesur hwn yn cael ei gynnwys yn adroddiad perfformiad y Cynghorydd Peredur Jenkins ar y 24/05/16.

**Cyllid - CD12.04 -** Nid yw'r cyfarfodydd monitro perfformiad wedi eu cynnal eto er mwyn cadarnhau a dilysu'r wybodaeth ar gyfer diwedd y flwyddyn. Bydd gwybodaeth y mesur hwn yn cael ei gynnwys yn adroddiad perfformiad y Cynghorydd Peredur Jenkins ar y 24/05/16.

**Llyfrgelloedd - LCL/001b -** Data ddim ar gael tan fis Mehefin.

**Llyfrgelloedd - LLYF05 -** Data ddim ar gael tan fis Mehefin.

* = Ffigwr is yn welliant

**Mesurau Economi** (Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies)

| Cyf. | Mesur Perfformiad | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | Cyfeiriad Uchelgais | 2015/16 Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Caff06d | Canran gwariant y Cyngor gyda busnesau lleol | 40.35 | 40.33 | 40.42 | Gwelliant | Data yn barod Mehefin 2016 |
| Caff21 | Canran o'r targed Arbedion Effeithlonrwydd Caffael y Cyngor wedi gyflawni | - | - | 100% | Cynnal | Data yn barod Mehefin 2016 |
| Caff07 | Canran o wariant caffael y Cyngor sydd yn mynd i gwmniau o fewn Gogledd Cymru (os yw'r prif swyddfa gyda cod post o fewn Gogledd Cymru) | 57% | 58% | 54% | Cynnal | Data yn barod Mehefin 2016 |
| Caff08 | Canran o wariant caffael y Cyngor sydd yn mynd i gwmniau o fewn Cymru | 61% | 61% | 58% | Cynnal | Data yn barod Mehefin 2016 |
| ACH03 | Canran cwsmeriad sy'n fodlon hefo'r gwasnaeth Archifau | 97% | 97% | 98% | Cynnal | 96% |
| Celf06 | Canran cwsmeriad sy'n fodlon hefo'r gwasanaeth Amguefeydd a Chelfyddydau | - | - | - | Gosod gwaelodlin | 96% |
| TMGC4 | Budd i'r economi o gefnogi digwyddiadau proffil uchel a strategol | £4,994,155 | £4,666,626 | £4,814,867 | Bodlon gweld gostyngiad | £5,928,034 |
| Uchel07 | Nifer y swyddi gwerth uchel wedi'u creu | - | - | 34 | Gwelliant | 35 |
| PENECON01 | Nifer y swyddi wedi eu creu gyda chymorth yr Adran Economi a Chymuned | - | - | 234.5 | Bodlon gweld gostyngiad | 81 |
| PENECON02 | Nifer y busnesau wedi eu cefnogi yng Ngwynedd gan yr Adran Economi & Chymuned | - | 92 | 67 | Bodlon gweld gostyngiad | 28 |
| GD01 | Nifer cymunedau (daearyddol / o ddiddordeb) yn defnyddio technoleg mewn ffordd newydd | - | - | - | I'w osod | 5 |
| GD02 | Nifer o unigolion wedi derbyn cymorth I fynd ar-lein / defnyddio'r we er eu budd personol | - | - | - | I'w osod | 141 |
| YREI | Nifer busnesau'r Sir yn adrodd iddynt ddefnyddio technoleg (e.fusnes/ e.fasnachu) o ganlyniad I ymyrraeth Gwynedd | - | - | - | I'w osod | 36 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Digidol | | | | | |

**Sylwadau**

**Caff6d** Bu Llywodraeth Cymru drwy'r NPS (National Procurement Service) sefydlu trefn ble oedd Cynghorau Sir yn gallu cael trwydded i system Atamis am gost sylweddol is na'r system Spikes Cavell rydym wedi bod yn defnyddio'n hanesyddol. Mae'r system newydd yn cyflwyno ffigyrau / canrannau lleol dra gwahanol i'r ffigyrau cynt felly rydym yn y broses o wirio data a cheisio cael asesiad gan yr adran Gyllid.

**Caff07** Adrodd ar ffigyrau 2015/16 yn ystod chwarter 1 2016/17

**Caff08** Adrodd ar ffigyrau 2015/16 yn ystod chwarter1 2016/17

**ACH03** Er bod y canran wedi gostwng ychydig, mae canran uchel o ddefnyddwyr y Gwasanaeth archifau yn parhau i fod yn fodlon gyda'r Gwasanaeth. Nid oes adborth penodol gan gwsmeriaid pam ei fod ychydig yn is na llynedd, er bod pryderon wedi eu datgan am ansicrwydd i ddyfodol y gwasanaeth. Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol gan y cyhoedd pan yr ymgynghorwyd a hwy, e.e.:.

"Archifau trefnus dros ben a staff gwybodus a pharod iawn eu cymorth"
"This is fantastic service offering access to our heritage and values. It is vital that there should always be access to this information, these archives do a fantastic job and are invaluable"
"Staff yn barod i helpu bob tro ac yn wybodus iawn am y deunydd sydd yn yr archifau"
"An excellent resource with helpful and knowledgeable staff"

**Celf06** Mae'n cynnwys :

- Neuadd Dwyfor 89% (lle i wella ar gyfer 2016/17)
- Amgueddfa Gwynedd 98%
- Celfyddydau Cymunedol 100% (yn fodlon iawn neu'n eithriadol o fodlon gyda'r gwasanaeth a chefnogaeth. ) Rhagwelir peth gostyngiad yn 16/17 gan fydd newidiadau i'r trefniadau cefnogi'r celfyddydau yn sgil penderfyniadau Her Gwynedd.

**TMGC4** Byddai'r ffigyrau yn uwch flwyddyn yma os byddai Wakestock wedi cymryd lle - colli buddsoddiad yn yr Economi oddeutu £1miliwn gan fod y digwyddiad wedi'i ganslo.

**Uchel7** Mae'n nifer o swyddi gwerth uchel a grëwyd gyda chefnogaeth y Cyngor yn ystod 2015/16 yn dangos cynnydd bacha r y nifer yn 2014/15 ac yn unol â'r disgwyl. Deilliodd y swyddi o ganlyniad i ystod o ymyraethau gan y Cyngor gan gynnwys gwaith gyda chwmnïau

unigol ynghyd a gwaith gyda chlystyrau o fusnesau o fewn sectorau gwerth megis y diwydiannau creadigol a'r sector technoleg gwybodaeth. Mae'r 35 swydd yn cynnwys:

- 5 Zip World (Blaenau/ Bethesda)
- 15 NMI Gaming – Parc Menai
- 4 Oxford Bioelectronics – Parc Menai

**PENECON01** Gyda nifer o'r prif raglenni oedd yn darparu data 'swydd wedi eu creu' (megis y Gronfa Buddsoddi Leol) bellach wedi dod i ben mae'r nifer o swyddi sydd wedi eu creu gyda chymorth uniongyrchol y Cyngor wedi gostwng yn unol â'r disgwyl; er hyn mae'r canlyniad o 81 o swyddi newydd wedi eu cefnogi yn arwyddocaol yng nghyd-destun yr adnoddau ar gael yn bresennol.

**PENECON2** Mae'r nifer o fusnesau sydd wedi eu cefnogi wedi gostwng oherwydd bod amryw o becynnau grant oedd wedi eu cynllunio i gefnogi busnesau wedi dod i ben.

**GD01** Cymorth wedi ei ddarparu i bump o gymunedau daearyddol/o ddiddordeb yn ystod 2015/16 trwy gydweithrediad gyda rhaglen LEADER Gwynedd (Arloesi Gwynedd Wledig) a Llywodraeth Cymru. Enghreifftiau yn cynnwys, treialu wi-fi cyhoeddus yn Aberdaron, cefnogi busnesau Stryd y Plas, Caernarfon I fanteisio ar y cyd o gyfryngau cymdeithasol, cefnogi atyniadau Eryri I gydweithio ar ddatblygu tocyn digidol ar y cyd.

**GD02** 141 o unigolion wedi eu cefnogi i ddefnyddio'r we drwy law sesiynau rhwydwaith Pencampwyr Digidol y sir yn ystod sesiynau yn Llyfrgelloedd lleol. Yn ychwanegol, 23 wedi dilyn hyfforddiant i'w galluogi i feddu'r sgiliau i helpu eraill i ddefnyddio'r we.

**YRE1** Gwynedd yn arwain y ffordd yng Nghymru drwy law dwy raglen beilot ar gyfer datblygu'r dull o gefnogi busnesau i wneud gwell defnydd o dechnoleg i fasnachu. Treialwyd sesiynau gyda 50 o fusnesau Gwynedd. Mae gwerthusiad o'r canlyniadau yn nodi fod 71% o fusnesau, sydd gyfystyr a 36, yn adrodd iddynt ymchwilio i ddulliau o ddefnyddio technoleg newydd o ganlyniad i'r cymorth.

Yn ogystal, mae 7,000 o fusnesau Gwynedd wedi derbyn gwybodaeth yn y flwyddyn ddiwethaf i godi ymwybyddiaeth o'r manteision a'u hysbysu o'r cymorth sydd ar gael.

Ers i dreialon Gwynedd ddod i ben, mae rhaglen genedlaethol 5 mlynedd wedi cychwyn ers Ionawr 2016 fydd yn cynyddu'r niferoedd all dderbyn cymorth.

* = Ffigwr is yn welliant

**Mesurau Gwasanaeth ieuenctid ac Hamdden** (Y Cynghorydd Mair Rowlands)

| Cyf. | Mesur – Diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth Ieuenctid** | | | | | | |
| **IEU05** | Nifer o achrediadau mae pobl ifanc yn eu derbyn trwy'r gwasanaeth Ieuenctid | - | 2323 | 2049 | Bodlon gweld gostyngiad | 495 (ffigwr terfynol ym Mehefin 2016) |
| **Sylwadau**<br>**IEU05**<br>**2014/15** - 533 o achrediadau Cenedlaethol wedi'i gwblhau trwy'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cynnwys Gwobr Dug Caeredin & Agored Cymru. 1516 achrediad/ tystysgrif leol yn cynnwys Prifysgol Plant a Gwobr John Muir, sef cyfanswm = 2049. 274 yn llai na 2013/14 oherwydd arian Ewrop Cynllun Potensial yn yr Ysgolion yn dod i ben.<br><br>**2015/16** - Ar hyn o bryd yn gallu cadarnhau 495 achrediadau cenedlaethol - mi fydd ffigyrau cywir cenedlaethol a lleol (Prifysgol Plant) ar gael diwedd Mehefin - yn casglu'r wybodaeth ar hyn o bryd. Rhagweld gostyngiad oherwydd wedi colli swydd Gweithiwr Achrediadau a 2 gweithiwr allweddol Uwch Weithiwr Ardal a gweithwyr Ysgolion profiadol. | | | | | | |
| **Gwasanaeth Hamdden** | | | | | | |
| HAM 1 | Nifer o ymweliadau i ganolfannau hamdden fesul 1000 y pen o'r boblogaeth | 12,408 | 12,906 | 13,790 | Bodlon gweld gostyngiad | Ffigyrau ar gael mis Gorffennaf |
| HAM 2 | Canran o ddefnyddwyr canolfannau hamdden sy'n fodlon hefo'r gwasanaeth | - | - | 77% | Gwelliant | Ffigyrau ar gael mis Gorffennaf |
| HAM 3 | Canran y plant sy'n 11 oed ac wedi cyrraedd Safon y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer nofio | - | 80% | 78% | Gwelliant | Ffigyrau ar gyfer mis Gorffennaf |
| **Sylwadau**<br>Gan fod rhain yn fesuryddion blynyddol, ni fydd y data yn barod i'w adrodd tan fis Gorffennaf 2016. | | | | | | |

**Mesurau Amgylchedd** (Y Cynghorydd John Wynn Jones)

| Gwasanaeth | Mesur - diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | 2015-16 Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Stryd | PB15 Canran o'r graffiti/posteri sy'n ymguddio arwyddion traffig ac yn achosi peryglon, glanhawyd/cliriwyd o fewn 24 awr i'r amser hysbyswyd. | 100 | 100 | 100 | Cynnal | 100.00 |

* = Ffigwr is yn welliant

| Gwasanaeth | Mesur - diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | 2015-16 Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Stryd | PB16 Canran o'r graffiti/posteri hiliol/tramgwyddol ar eiddo'r Cyngor, glanhawyd/cliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith i'r amser hysbyswyd. | 100 | 100 | 100 | Cynnal | 100.00 |
| **Sylwadau**<br>STS/005a STS/005b - Perfformiad wedi gwella (seiliedig ar yr arolwg allanol a mewnol)<br>STS/006 - Amcangyfrif seiliedig ar 10 mis | | | | | | |
| Gwastraff ac Ailgylchu | WMT/004 Canran y gwastraff trefol yrrwyd i'w dirlenwi | 47.31 | 45.94 | 43.33 | Gwelliant* | 34.34 |
| Gwastraff ac Ailgylchu | WMT/009 Canran y gwastraff trefol a gesglir gan yr Awdurdod Lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio, ailgylchu neu ei gompostio | 51.18 | 54.3 | 55.25 | Gwelliant | 58.75 |
| Gwastraff ac Ailgylchu | PB51 Canran lefelau ailgylchu/compostio masnachol | 27.3 | 30.79 | 35.45 | Gwelliant | 41.44 |
| Gwastraff ac Ailgylchu | PB60 Uchafswm tunelledd gwastraff pydradwy a dirlenwir (Lwfans tirlenwi) | 20695 | 19650 | 18603 | Gwelliant* | 15950<br>(89% o’r lwfans) |
| Gwastraff ac Ailgylchu | PB56 Canran galwadau Gwastraff a ddiwallwyd tro cyntaf | Dim data | 94.5 | 95 | Gwelliant | 95.86 |
| Gwastraff ac Ailgylchu | PB57 Canran galwadau Bwrdeistrefol ddiwallwyd tro cyntaf | Dim data | 92.6 | 91.3 | Gwelliant | 93.30 |
| **Sylwadau**<br>WMT/004, WMT/009,PB51, PB60 - Mae'r ffigyrau ar gyfer chwarter 4 yn amcangyfrif a bydd y ffigyrau terfynol yn cael eu cadarnhau ar ddiwedd mis Ebrill. | | | | | | |
| Priffyrdd | PB58 Canran galwadau Cynnal Priffyrdd a ddiwallwyd tro cyntaf | Dim data | 86.70 | 90.00 | Gwelliant | 93.37 |
| Priffyrdd | PB59 Canran Arolwg Bodlonrwydd Cwsmer wedi eu bodloni gydag ymateb yr Adran | Dim data | Dim Data | 94.1 | Cynnal | Mesur Blynyddol |
| Eiddo Corfforaethol | Eiddo9-Canran y lleihad yn lefel yr allyriadau carbon sy’n cael ei gynhyrchu trwy weithgareddau’r Cyngor | 15.1 | 24.8 | 24.4 | Cynnal | 26.20 |
| Eiddo Corfforaethol | Eiddo10-Canran y gostyngiad mewn allyriadau carbon deuocsid yn y stoc adeiladau cyhoeddus annomestig. | 17.98 | 30.76 | 30.3 | I’w sefydlu | 30.70 |

* = Ffigwr is yn welliant

| Gwasanaeth | Mesur - diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | 2015-16 Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymgynghoriaeth | Elw yn erbyn y targed | Mesur newydd | Mesur newydd | Mesur newydd | Gwelliant | -£159,640 |

**Mesurau Amgylchedd** (Y Cynghorydd Dafydd Meurig)

| Gwasanaeth | Mesur - diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Eiddo Corfforaethol | Eiddo1- Yr amser (mewn dyddiau) a gymer i ymateb i gais am waith cynnal a chadw | 12.6 | 11 | 9 | Rhagweld Gostyngiad* | 8 |
| Eiddo Corfforaethol | Eiddo2-Canran cwsmeriaid y ddesg gymorth cynnal a chadw sy’n fodlon gyda’r gwasanaeth a dderbyniwyd dros y 6 mis diwethaf | - | - | 97.5 | Cynnal | 98.09 |
| Eiddo Corfforaethol | Eiddo3-Canran yr adeiladau'r Cyngor yng nghategori cyflwr da neu dderbyniol | 93.1 | 96 | 96 | Cynnal | 97 |
| Eiddo Corfforaethol | Eiddo4-Canran adeiladau gyda systemau diogelwch priodol mewn lle i alluogi defnyddio'r adeilad i ddarparu gwasanaeth | - | - | - | Sefydlu Gwaelodlin | 66 |
| Eiddo Corfforaethol | Eiddo5-Canran o gwsmeriaid sy'n fodlon fod y gwasanaeth a gafwyd yn effeithlon a phwrpasol | - | - | - | Sefydlu Gwaelodlin | 100 |
| Eiddo Corfforaethol | Eiddo6-Canran o adeiladau newydd (neu addasiadau) sy'n cael eu cyflawni o fewn yr amserlen a'r gyllideb | 100 | 79 | 88.2 | Gwelliant | 100 |
| Eiddo Corfforaethol | Eiddo7-Canran o ddefnyddwyr sy'n hapus gydag adeiladau newydd neu adeiladau sydd wedi eu haddasu | 100 | 100 | 100 | Cynnal | 100 |
| Eiddo Corfforaethol | Eiddo11- Canran o gwsmeriaid sy’n fodlon gyda’r gwasanaeth a gafwyd gan Uned Datblygu Eiddo yn ystod y prosiect | - | - | - | Sefydlu Gwaelodlin | 100 |
| Eiddo Corfforaethol | Eiddo 13 - Canran o gwsmeriaid sy’n fodlon gyda’u hadeilad newydd ddwy flynedd ar ôl gorffen y gwaith | - | - | - | Sefydlu Gwaelodlin | 100 |

* = Ffigwr is yn welliant

| Gwasanaeth | Mesur - diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Eiddo Corfforaethol | Eiddo 8a-Incwm o waredu eiddo sydd ar gael i'r Cyngor ail ddefnyddio | £871,000 | £1,551,000 | £1,967,000 | Rhagweld Gostyngiad | £682,000 |
| Eiddo Corfforaethol | Eiddo8b- Canran o brydlesi wedi eu hadolygu yn amserol | - | - | - | Sefydlu Gwaelodlin | 92 |
| Eiddo Corfforaethol | Eiddo12a- Cost y pen ar gyfer gofod swyddfa Caernarfon | - | - | - | Sefydlu Gwaelodlin | £825.00 |
| Eiddo Corfforaethol | Eiddo12b- Bodlonrwydd staff gyda'u gofod swyddfa h.y. ydi o'n addas ar gyfer gallu cyflawni eu gwaith? | - | - | - | Sefydlu Gwaelodlin | 78.30 |
| Eiddo Corfforaethol | Eiddo 13a- Bodlonrwydd rheolwyr safle gyda'r gwasanaeth glanhau/ gofalu | - | - | - | Sefydlu Gwaelodlin | - |
| Eiddo Corfforaethol | Parcio4- Canran o apeliadau i'r beirniad annibynnol sy'n cael eu caniatáu | - | - | - | Gwella | 80 |
| Eiddo Corfforaethol | Parcio03- Canran o gwsmeriaid a ddywedodd eu bod yn fodlon â'r lefel gwasanaeth | - | - | - | Gwella | 73.00 |

**Sylwadau**

**Eiddo 12b** - Dyma'r tro cyntaf i ni holi am farn staff ar addasrwydd eu gofod swyddfa. Dylid nodi mai 451 o atebion a dderbyniwyd allan o oddeutu 1500 o weithwyr swyddfa. Mae nifer o faterion oedd y tu hwnt i reolaeth yr Uned ond mae camau wedi eu cymryd i ymateb i'r materion o fewn ein rheolaeth.

**Parcio 4 –** Mwyafrif yr achosion sydd wedi eu caniatáu yn ymwneud â'r Maes yng Nghaernarfon ac aneglurder ynghylch y trefniadau parcio yno. Rydym wedi cynnal adolygiad o'r trefniadau rheoli presennol a byddwn yn cyflwyno Gorchymyn newydd ar y Maes er mwyn gwneud y trefniadau yn fwy eglur.

**Parcio 03 -** Mae'r ganran wedi cynyddu am yr ail chwarter yn olynol. Nifer o sylwadau wedi eu gwneud a sylw wedi eu rhoi iddynt gan gynnwys ystyried cyflwyno tariff hanner awr yn ein meysydd parcio fydd yn derbyn sylw unwaith y bydd y Gorchymyn newydd yn ei le.

| Gwasanaeth | Mesur - diffiniad | | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cludiant Integredig | Cludiant01 | Canran o siwrnai cludiant cyhoeddus (bysus) sydd wedi eu monitro sydd o fewn y terfynau dibynadwyedd (amseroldeb bysus) | - | - | - | Gwella | 81.96 |
| Cludiant Integredig | Cludiant02 | Canran o gwsmeriaid a ddywedodd eu bod yn fodlon â'r lefel gwasanaeth | - | - | - | Gwella | 40.00 |
| Cludiant Integredig | THS/007 | Canran yr oedolion sy'n 60 oed neu drosodd sy'n ddeiliaid tocynnau Teithio rhatach ar y bws. | 84.7 | 84.6 | 80.3 | - | - |

* = Ffigwr is yn welliant

| Gwasanaeth | Mesur - diffiniad | | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Traffig | Traffig01 | Canran o gwsmeriaid a ddywedodd eu bod yn fodlon â'r lefel gwasanaeth | - | - | - | Sefydlu Gwaelodlin | 99.57 |
| Gwaith Stryd | GStryd01 | Canran o gwsmeriaid a ymatebodd i arolwg ddywedodd eu bod yn fodlon â'r lefel gwasanaeth | - | - | - | Sefydlu Gwaelodlin | 97.97 |
| Diogelwch Ffyrdd | DFF1 | Canran o fynychwyr sydd wedi dysgu bod yn fwy diogel ar y ffyrdd o ganlyniad i'r wers/ hyfforddiant | - | - | - | Sefydlu Gwaelodlin | 96.67 |
| **Sylwadau:**<br>**Cludiant02** - 69 o gofnodion, gyda 27 yn fodlon a 42 yn anfodlon. O'r sylwadau sy'n anfodlon, mae 26 o'r rhain yn ymwneud a gwasanaethau masnachol sydd allan o'n rheolaeth. Er hyn, mae staff wedi helpu'r cwsmer ble y gallent i geisio datrys y broblem. Nodir fod lleihad sylweddol wedi bod yn y nifer o gwynion yr ydym yn ei dderbyn, yn gyffredinol. | | | | | | | |
| Cynllunio ac Amgylchedd | PLA004b Lleol | Canran yr holl geisiadau cynllunio perthnasol wedi eu penderfynu o fewn 56 diwrnod a pa mor sydyn maent yn cael eu penderfynu ar gyfartaledd.<br>Mesur Cenedlaethol:<br>Pla004b Canran yr holl geisiadau cynllunio perthnasol wedi eu pennu o fewn 8 wythnos | 73.13% | 72.86% | 76.44% | Cynnal | 82.30% |
| Cynllunio ac Amgylchedd | | Pa mor sydyn mae'r holl geisiadau ar gyfartaledd wedi cymryd i'w penderfynu (Dyddiau) | - | - | - | I'w sefydlu | 60 |
| Cynllunio ac Amgylchedd | PLA006b | Canran o dai fforddiadwy ganiatawyd gyda cheisiadau cynllunio am dai.<br>Mesur Cenedlaethol:<br>PLA006b Nifer o unedau tai fforddiadwy a gafodd eu darparu fel canran o'r holl unedau tai ychwanegol a gafodd eu darparu yn ystod y flwyddyn drwy'r drefn cynllunio | - | 41.00% | 50.00% | Cyfeiriad i'w gadarnhau | 56.30% |
| Cynllunio ac Amgylchedd | PLA/005 | Canran yr achosion gorfodi a gafodd eu datrys o fewn 12 wythnos o gael eu derbyn yn ystod y flwyddyn | 85.10% | 69.50% | 71.43% | Cynnal | 72.75% |
| Cynllunio ac Amgylchedd | | Pa mor sydyn mae'r holl achosion Gorfodaeth ar gyfartaledd wedi cymryd i'w datrys (Dyddiau) - Cychwyn adrodd yn Ch3 | - | - | - | Cynnal | 164 |
| Cynllunio ac Amgylchedd | PLA/002 | Canran y ceisiadau cynllunio wedi eu pennu a gafodd eu cymeradwyo | 95.56% | 94.76% | 93.28% | Cynnal | 90.33% |
| Cynllunio ac Amgylchedd | Cynllunio01 | Canran o gwsmeriaid a ddywedodd eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r lefel gwasanaeth Cynllunio | - | - | - | Gwella | 88.68% |

*  =  Ffigwr is yn welliant

| Gwasanaeth | Mesur - diffiniad | | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sylwadau:**<br>**PLA004b Lleol** - Ar gyfartaledd mae'r ceisiadau sydd wedi eu penderfynu o fewn 56 diwrnod yn cymryd 36 diwrnod i'w penderfynu | | | | | | | |
| Gwarchod Y Cyhoedd | GyC02 | Canran o gwsmeriaid a ymatebodd i arolwg ddywedodd eu bod yn fodlon â'r lefel gwasanaeth. | 96 | 97 | 97 | Cynnal | 99 |
| Gwarchod Y Cyhoedd | GyC03 | Canran y Ceisiadau am Wasanaeth sy'n derbyn ymateb o fewn targed. | 92 | 92 | 95 | Cynnal | 92 |
| Gwarchod Y Cyhoedd | GyC04 | Canran y Ceisiadau am Wasanaeth a chafodd eu datrys o fewn 6 mis o'r dyddiad derbyn. | 93 | 93 | 92 | Gwelliant | 91 |
| Amgylchedd | GyC07 | Canran y busnesau Prosesau Llygredd Awyr sy'n agored i gael arolygiad yn ystod y flwyddyn. | 100 | 100 | 100 | Gwelliant | 100 |
| Safonau Masnach | GyC22 | Canran o fusnesau anghydffurfiol sy'n gwerthu nwyddau gyda chyfyngiad oed sydd bellach yn cydymffurfio | 86 | 86 | 94 | Gwelliant | 100 |
| Gwasanaethau Cleientiaid | GyC23 | Canran yr ymatebion i geisiadau am wasanaeth parthed cŵn strae o fewn un diwrnod gwaith | 96 | 78 | 92 | Cynnal (92-97%) | 96 |
| Gwarchod Y Cyhoedd | GyC25 | Canran y busnesau newydd wedi eu canfod ac sydd wedi cael ymweliad asesu risg neu gwnaeth ddychwelyd holiadur hunan asesu yn ystod y flwyddyn | # | # | 90 | Gwelliant | 75 |
| Gwarchod Y Cyhoedd | GyC26 | Canran y busnesau uchel eu risg sy'n agored i gael arolygiad sydd wedi ei dderbyn. | 100 | 100 | 100 | Gwelliant | 99 |
| Lles | PAM9a | Canran o sefydliadau bwyd sydd yn y system sy'n cyrraedd sgôr 4/5 safonau hylendid bwyd. | # | 91 | 93 | Cynnal (75 -100%) | 93 |
| Gwarchod Y Cyhoedd | GyC24 | Canran y troseddau sylweddol a gafodd eu cywiro drwy ymyrraeth gan Warchod y Cyhoedd | 87.5 | 92 | 88 | Gwelliant | 86 |
| Gwarchod Y Cyhoedd | PAM9 | Canran o sefydliadau bwyd sydd yn 'cydymffurfio'n fras' a safonau hylendid bwyd. | 95.44 | 97.49 | 97.2 | Cynnal (85-100%) | 97.95 |

**Sylwadau**
**GYC22 -** 81% yw'r ffigwr cyflawn am y flwyddyn am y nifer o fusnesau na werthodd nwyddau yn anghyfreithlon. Felly, allan o 57 'test purchase' - 11 busnes (19%) yn gwerthu'n anghyfreithlon cyn unrhyw ymyrraeth gan Safonau Masnach.
**GYC 25** - *Canran y busnesau newydd wedi eu canfod ac sydd wedi cael ymweliad asesu risg neu wedi dychwelyd holiadur hunan asesu yn ystod y flwyddyn* - 75% y ffigwr (cronnol) am y flwyddyn. Mae'r ffigwr yn cynnwys busnesau sy'n dod i sylw'r Adran ac angen ymweliad o safbwynt yr holl agweddau GYC h.y. Safonau Masnach, Bwyd, Iechyd Anifeiliaid ac Iechyd a Diogelwch er mai eiddo 'Bwyd' yn unig sydd raid ymweld ag o fewn 28 diwrnod. O ran busnesau newydd 'bwyd' yn unig - allan o 251

* = Ffigwr is yn welliant

| Gwasanaeth | Mesur - diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| o fusnesau bwyd cafodd 217 o fusnesau ymweliad (86%). Yn gyffredinol, mae busnesau newydd yn cael eu blaenoriaethu o ran risg i'r cyhoedd ac unrhyw 'intelligence' a dderbyniwyd am y busnes ac felly mae'r busnesau sydd heb gael ymweliad eto yn fusnesau risg isel (sef y 25%).<br>**PAM 9a** – Nifer o fusnesau bwyd gyda sgôr hylendid bwyd o 4 neu uwch – y Cyfartaledd dros Gymru yn Ebrill/Mai oedd 86%. | | | | | | |